**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.wales

30 Hydref 2023

Annwyl Llŷr,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023.**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 28 Medi 2023. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi cydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Bu'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 26 Medi 2023. Y dyddiadau cychwyn fydd 17 Tachwedd 2023, 24 Tachwedd 2023 a 2 Mai 2024.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gosod gan Lywodraeth y DU. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fewnforio cynhyrchion planhigion a phlanhigion ledled Prydain. Mae llawer o'r newidiadau yn y Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod trwy borthladdoedd Lloegr a byddent yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth mewnforio. Gall cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr achosi baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), busnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar draws Prydain yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau ar gael mewn un offeryn heb unrhyw risg o ymwahanu deddfwriaethol ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae'n debygol y byddai gwneud Rheoliadau Cymru yn unig ar gyfer rhai darpariaethau o fewn y Ddeddf hon yn cael goblygiadau ar gyfer diwygio a chydgrynhoi deddfwriaeth iechyd planhigion yn dilyn cymhathu Bil REUL ar ddiwedd 2023, yn ogystal â chael goblygiadau ar gyfer rhoi gwybod i Sefydliad Masnach y Byd (WTO) am y newidiadau.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg ar Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (LJCC).

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**